**Proses Symud i Fyny i Gleientiaid Awdurdodau Lleol yn y DU**

| CAMAU | AMSERLEN | CANLLAW |
|---|---|---|
| **Cam Paratoadol**<br>Cwblhau'r broses symud i fyny safonol yn ffurfiol | **Diwedd Gorffennaf 2017** | (i) Cwblhau'r holiadur safonol meintiol ac ansoddol i'r diwydiant;<br>(ii) Cwblhau'r cais a llythyr gan yr Awdurdod Lleol sy'n rhoi caniatâd i gael ei symud i fyny; a<br>(iii) Cwblhau'r llythyr ymateb gan gwmnïau buddsoddi sy'n cytuno i'r symud i fyny. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cam 1**<br>Awdurdodau Lleol i gwblhau'r llythyr a'r holiadur a'u hanfon at y cwmnïau buddsoddi | **Awst – Medi 2017** | Awdurdodau Lleol i gwblhau ac anfon yr hyn a ganlyn i gwmnïau buddsoddi:<br>(i) Cais a llythyr gan yr Awdurdod Lleol sy'n rhoi caniatâd i gael ei symud i fyny i statws cleient proffesiynol; a<br>(ii) Holiaduron meintiol ac ansoddol wedi'u cwblhau (er mwyn i gwmnïau buddsoddi fodloni eu hunain bod yr awdurdod lleol yn pasio'r prawf ansoddol). |
| ↓ | ↓ | ↓ |
| **Cam 2**<br>Cwmnïau Buddsoddi i ddilysu'r wybodaeth a chynnal yr asesiad statws cleient | **Medi – Hydref 2017** | Cwmnïau buddsoddi i ddilysu'r wybodaeth a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol i bennu p'un a yw'r wybodaeth: (i) yn ddigonol; a (ii) yn briodol.<br><br>Asesu'r wybodaeth a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol a chadarnhau ei fod:<br>(i) wedi cyflwyno'r cais a'r llythyr caniatâd er mwyn iddo gael ei drin fel cleient proffesiynol; ac<br>(ii) wedi pasio'r prawf meintiol a (ii) y prawf ansoddol.<br><br>Cofnodi a storio gwybodaeth yr awdurdod lleol a chanlyniadau'r asesiad mewnol. |
| ↓ | ↓ | ↓ |
| **Cam 3**<br>Anfon y llythyr cadarnhau i'r cleientiaid ALl yn cadarnhau'r statws cleient proffesiynol | **Hydref 2017** | Os mai Awdurdod Lleol sydd wedi cyflwyno'r cais a'r llythyr caniatâd a'i fod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer:<br>(i) y prawf meintiol; ac<br>(ii) y prawf ansoddol, anfon llythyr yn cadarnhau dosbarthiad y cleient fel cleient proffesiynol. |
| ↓ | ↓ | ↓ |
| **Cam 4**<br>Ail-gategoreiddio'r cleient | **3 Ionawr 2018** | Unwaith y bydd y camau uchod wedi'u cwblhau, o 3 Ionawr 2018 ymlaen, gall y cwmni barhau i ymdrin â'r awdurdod lleol fel cleient proffesiynol. |